Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen

## Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir

## Rhagfyr 2013

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| Safonau a chynnydd mewn Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen | 4 |
| Y ddarpariaeth addysgol a'r amgylchedd dysgu | 5 |
| Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella | 6 |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Safonau a chynnydd mewn Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen** | **9** |
| Siarad a gwrando | 11 |
| Darllen | 13 |
| Ysgrifennu | 15 |
| **Y ddarpariaeth addysgol a'r amgylchedd dysgu** | **16** |
| Cynllunio ac addysgu | 16 |
| Yr amgylchedd dysgu | 19 |
| **Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella** | **22** |
| Arweinyddiaeth | 22 |
| Cynllunio ar gyfer gwella | 23 |
| **Atodiadau** | **24** |
| Sail y dystiolaeth | 24 |
| Geirfa/cyfeiriadau | 25 |
| Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg | 26 |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Estyn ar gyfer 2012-2013. Pwrpas yr adroddiad yw:

- adrodd ar safonau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg;
- ystyried y gwahaniaethau rhwng ysgolion sy'n cynnwys canran uchel o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, ysgolion sydd â chanran uchel iawn o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref, ac ysgolion lle mae poblogaeth gymysg o ran iaith y cartref; ac
- ystyried y cydbwysedd rhwng yr angen am addysgu ffurfiol i ddatblygu iaith, a darparu'r cyfleoedd chwarae a gweithgarwch anffurfiol sy'n rhan o athroniaeth a dull gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid ysgolion meithrin a chynradd cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog, arweinwyr a rheolwyr lleoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg, ymarferwyr (athrawon, cynorthwywyr dysgu a staff cymorth eraill) mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg, swyddogion ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ac awdurdodau esgobaethol eglwysig. Bydd yr adroddiad hefyd o ddiddordeb i sefydliadau sy'n hyfforddi ymarferwyr.

Mae'r cynnwys a chanfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar yr ystod o dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1.

## Cefndir

Ym Medi 2008, cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen ar gyfer holl blant tair a phedair oed mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir yng Nghymru. Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2011-2012, mae'r Cyfnod Sylfaen yn llawn weithredol ar gyfer disgyblion hyd at saith oed.

Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant yn egluro athroniaeth a dulliau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen fel a ganlyn:

> 'Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cwmpasu anghenion datblygiadol plant. Wrth wraidd fframwaith y cwricwlwm statudol y mae datblygiad cyfannol plant a'u sgiliau ar draws y cwricwlwm, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu, gwybodaeth a sgiliau blaenorol.'

ac eto:

> 'Bydd plant yn dysgu drwy weithgareddau sy'n cynnig profiadau uniongyrchol gyda'r busnes difrifol o 'chwarae' yn darparu'r cyfrwng. Drwy eu chwarae, bydd plant yn ymarfer a chyfnerthu eu dysgu, yn chwarae gyda syniadau,

> arbrofi, cymryd risgiau, datrys problemau, ac yn gwneud penderfyniadau'n unigol, mewn grwpiau bach a mawr. Mae profiadau uniongyrchol yn galluogi plant i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunain a'r byd y maent yn byw ynddo. Mae datblygiad hunanddelwedd plant a theimladau o hunan-barch wrth wraidd y cyfnod hwn.'

Yn gyffredinol, ar draws Cymru, mae disgyblion yn dechrau yn yr ysgol yn fuan ar ôl cyrraedd pedair oed. Fodd bynnag, mae rhai awdurodau lleol yn derbyn disgyblion i'w hysgolion yn y flwyddyn ysgol pan fo plant yn bedair oed. Golyga hyn fod addysg ar gyfer plant tair a phedair oed yn cael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir gan awdurodau lleol, a hefyd mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae'r lleoliadau nas cynhelir hyn yn cael eu darparu a'u cefnogi gan fudiadau gwirfoddol ac elusennol megis y Mudiad Methrin a Chymdeithas Darparu Cyn-ysgol Cymru, neu gan ddarparwyr preifat. Y prif ddarparwr cyfrwng-Cymraeg yw'r Mudiad Meithrin gyda dros 500 o leoliadau ar draws Cymru, sy'n cael eu mynychu gan tua 13,000 o blant hyd at 4 oed.

Mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng-Cymraeg, mae pwyslais penodol ar ddatblygu'r Gymraeg trwy ddulliau trochi ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen, beth bynnag fo iaith cartref y plentyn. Nid oes gofyniad i'r lleoliadau hyn gyflwyno'r maes dysgu Datblygu'r Gymraeg, sydd yn weithredol yn unig mewn lleoliadau sy'n cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r dull trochi yn ffordd o weithredu sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio Cymraeg yn unig fel cyfrwng addysgu a dysgu, gan ddefndyddio technegau ymarferol a gweledol i helpu plant a disgyblion i ddatblygu geirfa a chystrawen. Hanfod y dull yw bwydo a modelu iaith dda.

Mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg, pan fydd disgyblion yn 7 oed, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, cânt eu hasesu yn erbyn tri o'r meysydd dysgu – datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg), datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithas, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Cymraeg yw cyfrwng pob asesiad, waeth beth fo iaith gyntaf y disgybl. Ychydig o'r garfan ar draws Cymru gyfan sy'n hanu o gartrefi Cymraeg. Er enghraifft, o'r garfan a gafodd ei hasesu yn 2012, yr oedd llai na 8% yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r adroddiad yn rhoi pwyslais penodol ar y maes dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, ond bydd yr astudiaeth hefyd yn archwilio pa strategaethau a ddefnyddir i hybu disgyblion i gaffael a defnyddio'r Gymraeg ar draws pum maes dysgu arall y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir sylw penodol i:

- safonau a chynnydd disgyblion mewn Cymraeg;
- ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth addysgol gan gynnwys yr amgylchedd dysgu; ac
- arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella, gan gynnwys hyfforddiant a chynhaliaeth ar gyfer ymarferwyr.

Diben y gwaith cylch gorchwyl hwn yw arfarnu pa mor effeithiol y mae plant yn caffael medrau Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg ar draws Cymru. Mae'r adroddiad yn archwilio sut y gall egwyddorion cynllunio a darpariaeth y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau ac ysgolion hwyluso datblygiad y Gymraeg ymhlith disgyblion o gefndiroedd Cymraeg a di-Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i 'Strategaeth Addysg Cyfrwng-Cymraeg 2010'. Mae'r strategaeth hon yn dangos bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu addysg a hyfforddiant cyfrwng-Cymraeg fel rhan annatod o'r gyfundrefn addysg. Mae Llywodraeth Cymru eisiau 'sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.' Mae'n datgan ymhellach:

> 'Addysg cyfrwng-Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog.'

Mae Deilliant 1 y Strategaeth yn pennu nodau penodol ynglŷn â'r canrannau o ddisgyblion y maent yn anelu i gael eu hasesu ym maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Y nod yw cynyddu'r canran sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg o 21% o ddisgyblion Cymru yn 2009 (asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1), i 25% erbyn 2015 a 30% erbyn 2020.

Gesyd y nodau hyn gyfrifoldeb clir ar awdurdodau lleol i gynllunio'n glir sut maent yn bwriadu cynyddu'r cyfleoedd i ddarparu addysg cyfrwng-Cymraeg.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau a chynnydd mewn Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen

1 Yn ôl asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen 2011-2012, mae tua 86% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg ar draws Cymru'n cyflawni yn ôl y disgwyl (deilliant 5 neu uwch) yn y maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg). Mae hyn yn cymharu'n dda â chanlyniadau sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (84.3%). Er bod canlyniadau ar y lefelau uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn debyg ar gyfer sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg), sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg) a datblygiad mathemategol, maent yn sylweddol uwch ym maes datblygiad personol, cymdeithasol a lles.

2 Yn y mwyafrif o ysgolion a lleoliadau cyfrwng-Cymraeg a arolygwyd, mae safonau siarad a gwrando plant 3-4 oed yn datblygu'n dda. Gallant sgwrsio'n gynyddol effeithiol gyda'i gilydd a'u hathrawon wrth ymgymryd â'u gweithgareddau. Mae llawer o blant yn mwynhau darllen ac yn cael pleser o wrando ar stori. Maent yn hoffi trin a thrafod llyfrau, a siarad am yr hyn maent yn ei ddarllen neu sy'n cael ei ddarllen iddynt. Gall ychydig o blant ddarllen geiriau cyfarwydd, megis eu henwau neu labeli ar offer a dodrefn yn llwyddiannus. Mae llawer o'r plant hyn yn ymroi'n llwyddiannus i wneud marciau cychwynnol a chreu patrymau fel sail i ddatblygu eu medrau ysgrifennu.

3 Mae safonau cyffredinol disgyblion 4-7 oed yn Gymraeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu geirfa lafar effeithiol mewn ystod amrywiol o gyd-destunau yn yr ardaloedd dysgu ac yn datblygu gallu cynyddol i sgwrsio a thrafod yn hyderus gyda'i hathrawon a chyda'i gilydd. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddewis a defnyddio ffynonellau darllen amrywiol ac maent yn datblygu eu medrau darllen mewn amrywiaeth dda o gyd-destunau. Er hynny, nid yw medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu cystal. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn or-ddibynnol ar gymorth a chanllawiau gan athrawon. Nid yw eu gwaith ysgrifenedig ar draws y meysydd dysgu yn ddigon cywir a thaclus.

4 Mae cefndiroedd a medrau ieithyddol plant yn y Gymraeg yn amrywio pan fyddant yn dechrau mewn lleoliad nas cynhlelir neu ysgol. Yn y lleoliadau a'r ysgolion hynny sy'n darparu ar gyfer disgyblion o gefndiroedd ieithyddol tebyg, mae medrau ieithyddol y disgyblion yn datblygu'n gyson. Fodd bynnag, mewn ychydig o'r lleoliadau ac ysgolion hynny lle mae cefndir y disgyblion yn gymysg o safbwynt iaith y cartref, mae cynnydd gormod o blant o gartrefi di-Gymraeg yn rhy araf, a chynnydd rhai plant o gartrefi Cymraeg yn cael ei lesteirio.

5 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw plant yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu medrau llafar, darllen, gwrando ac ysgrifennu. Yn yr ysgolion hyn, er bod sesiynau ffocws yn canolbwyntio'n gadarn ar ddatblygu medrau iaith, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i'w cymhwyso'n llwyddiannus ar draws ystod o weithgareddau dysgu ac mewn ardaloedd gweithgarwch gwahanol.

## Y ddarpariaeth addysgol a'r amgylchedd dysgu

6 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau a llawer o ysgolion yn llwyddo i greu cydbwysedd da rhwng profiadau uniongyrchol, anffurfiol eu naws, a gweithgareddau ffocws sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

7 Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau, mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol ac yn amrywiol. Mae'r lleoliadau a'r ysgolion hyn yn darparu ardaloedd gweithgarwch i drochi plant mewn profiadau a gweithgareddau iaith y tu fewn a thu allan i'r adeilad. O ganlyniad, mae disgyblion yn llwyddo i gaffael iaith i safon briodol i'w hoed a'u gallu wrth ymgymryd â gweithgareddau mewn nifer o'r meysydd dysgu. Mae hyn yn hybu eu medrau darllen ac ysgrifennu hefyd.

8 Mewn ychydig o ysgolion nid oes cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau ffocws a gweithgarwch mwy anffurfiol, yn arbennig ym Mlynyddoedd 1 a 2. Mae pwyslais mawr ar ddatblygu medrau ieithyddol mewn sesiynau ffurfiol, ond nid yw'r ardaloedd gweithgarwch yn gyffredinol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ieithyddol mewn cyd-destunau amrywiol. Mae athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion heb roi digon o ystyriaeth i athroniaeth ganolog y Cyfnod Sylfaen.

9 Mewn llawer o leoliadau mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus ac yn sicrhau bod y profiadau a'r adnoddau sydd ar gael i'r plant yn gosod seiliau cadarn i'r plant ddatblygu eu medrau iaith. Mae hyn yn wir hefyd yn y mwyafrif o ysgolion

10 Yn y lleoliadau a'r ysgolion hyn, mae'r ardaloedd gweithgarwch yn darparu cyfleoedd penodol i ddisgyblion ymgymryd â thasgau sy'n datblygu eu medrau iaith yn benodol. Mae'r ddarpariaeth barhaus yn herio'r plant i adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol. Mae mwyafrif yr athrawon a'r cynorthwywyr yn cefnogi dysgu'r disgyblion trwy ymyrraeth fedrus i fwydo geirfa a chystrawennau iaith cryf a chynnig modelau iaith ardderchog i'r disgyblion. Yn y lleiafrif o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn lle nad yw'r gefnogaeth hon ar gael, nid yw medrau iaith disgyblion yn datblygu'n briodol.

11 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion fel ei gilydd, mae athrawon yn darparu tasgau a heriau iaith penodol ar gyfer plant. Maent yn rhoi blaenoriaeth gadarn i ddatblygu medrau Cymraeg y plant, a hynny mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Ychydig o ysgolion sy'n gosod heriau iaith penodol ar gyfer disgyblion 4-7 oed ar draws yr ardaloedd gweithgarwch. Lle mae hyn yn digwydd, mae llawer o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddynt ac yn ymarfer a datblygu eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu mewn dull effeithiol iawn.

12 Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae gweithgareddau ffocws ar gyfer datblygu medrau iaith grwpiau o ddisgyblion yn cael eu targedu'n briodol fel bod plant yn cael y budd mwyaf ohonynt. Mae mwyafrif yr athrawon, ymarferwyr a chynorthwywyr yn cynnig modelau iaith da sy'n ysgogi plant i gaffael iaith goeth a chywir. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o leoliadau nas cynhelir, yn fwyaf arbennig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg, nid yw safon a chywirdeb iaith ymarferwyr yn ddigon da i gynnig model raenus ar gyfer plant.

13 Lle mae plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg o fewn yr un sefydliad, yn yr arfer orau, mae'r athrawon yn cynllunio i sicrhau bod sbardun a chynhaliaeth effeithiol i ddatblygu iaith pob disgybl. Darparant heriau a gweithgareddau sydd wedi eu targedu'n dda i ymateb i anghenion ieithyddol y disgyblion. Er hynny, mewn gormod o'r ysgolion hyn nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol i sicrhau bod plant o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn gwneud y cynnydd priodol o'u man cychwyn.

14 Mewn ychydig o ysgolion a lleoliadau, nid oes dealltwriaeth gadarn gan athrawon ac ymarferwyr o hanfodion y dull trochi o addysgu. O ganlyniad, nid ydynt yn bwydo a modelu'r Gymraeg yn ddigon cadarn i'r disgyblion, ac nid yw eu disgwyliadau yn ddigon uchel. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cynorthwywyr dysgu yn glynu at ddefnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg ac mae hyn yn llesteirio cynnydd.

15 Mewn ysgolion llai eu maint, mae ystod oed eang o ddisgyblion o dan ofal athro/athrawes. Oherwydd bod gwahaniaethau mewn cymhareb disgybl i oedolyn wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, nifer cyfyngedig o gynorthwywyr sydd ar gael. Yn y sefyllfa hon, yn rhy aml, nid yw gweithgareddau'n cael eu targedu'n ddigon da i ddiwallu anghenion pob disgybl, ac nid yw medrau iaith disgyblion yn datblygu'n briodol.

16 Mae lleoliadau sydd ag adeiladau pwrpasol wedi eu neilltuo ar gyfer addysg gynnar wedi datblygu ardaloedd allanol da i hybu cynnydd plant. Fodd bynnag, lle mae lleoliadau'n cyfarfod mewn ystafelloedd neu adeiladau dros dro, megis neuaddau pentref, nid yw'r mwyafrif ohonynt wedi llwyddo i ddatblygu ardaloedd effeithiol. Er hyn, mae ychydig ohonynt yn gwneud trefniadau da i gydweithio ag ysgolion i hybu'r agwedd hon.

**Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella**

17 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw arweinwyr nac athrawon yn dangos digon o ddealltwriaeth o athroniaeth ganolog y Cyfnod Sylfaen. Oherwydd y flaenoriaeth genedlaethol gyfredol ar ddatblygu llythrennedd, maent yn gweld tensiwn rhwng athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a'r angen i gynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau iaith a llythrennedd. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn medru cymhwyso eu medrau iaith yn llwyddiannus ar draws ystod o gyd-destunau. Mae hyn yn fwy amlwg ym Mlynyddoedd 1 a 2.

18 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yn llwyddo i sicrhau bod ganddynt staff a hyfforddwyd yn briodol i weithredu yn ôl athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr mewn lleoliadau a chyda plant 3 i 4 oed mewn ysgolion hefyd, ar y cyfan, yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu iaith, cyfathrebu a llythrennedd plant. Lleiafrif o ysgolion, ac ychydig iawn o leoliadau, sy'n olrhain cynnydd ieithyddol y disgyblion, ac yn monitro'r ddarpariaeth yn barhaus er mwyn arfarnu a yw hi'n arwain at gynnydd yn y dysgu.

19 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi llwyddo i addasu'r amgylchedd dysgu y tu allan i'r adeilad i sicrhau amrywiaeth o gyd-destunau a phrofiadau dysgu sy'n hybu sgiliau iaith a chyfathrebu disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r ardal allanol wedi ei chynllunio'n ddigon gofalus i ddarparu gweithgareddau sy'n ysgogi plant i ddatblygu

eu medrau iaith a llythrennedd. Yn yr ysgolion hyn, mae tuedd i beidio â rhoi digon o gyfleoedd i blant hŷn y Cyfnod Sylfaen fanteisio ar gyfleoedd datblygu yn yr ardal allanol.

20 Mae mudiadau gwirfoddol sy'n rheoli lleoliadau, megis y Mudiad Meithrin, yn sicrhau bod arweinwyr a phwyllgorau rheoli y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir yn deall ac yn gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda, ac maent yn cynllunio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth.

21 Mewn ysgolion, mae ymrwymiad a dealltwriaeth arweinwyr yn fwy amrywiol. Yn yr arfer orau, mae hunanarfarnu a chynlluniau gwella yn rhoi sylw clir i ddatblygu'r Gymraeg o fewn athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Yn yr ychydig o leoliadau ac ysgolion lle nad yw'r arweinyddiaeth cystal, nid yw'r arweinwyr yn rhoi digon o sylw i sicrhau cydberthynas effeithiol rhwng datblygiad y Gymraeg ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.

22 Mae awdurdodau lleol a mudiadadau sy'n rheoli lleoliadau nas cynhelir yn darparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion a lleoliadau yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o awdurdodau lleol yn darparu'r gefnogaeth honno trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a lleoliadau:**

A1 sicrhau bod cyfleoedd penodol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu ac yn y gwahanol ardaloedd gweithgarwch;

A2 sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng sesiynau ffurfiol i addysgu ac atgyfnerthu medrau iaith a chyfleoedd anffurfiol i'w defnyddio;

A3 datblygu gweithgareddau a chyfleoedd dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn;

A4 gosod disgwyliadau clir fydd yn sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn defnyddio'r Gymraeg wrth iddynt ddilyn gweithgareddau anffurfiol, yn arbennig ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen;

A5 gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymarferwyr ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fel eu bod yn bwydo a modelu Cymraeg o safon dda i'w disgyblion ar draws y meysydd dysgu;

A6 olrhain cynnydd medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn gyson ar hyd y Cyfnod Sylfaen; a

A7 rhoi sylw priodol i ansawdd y ddarpariaeth a safonau yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwella ysgolion a lleoliadau.

**Dylai awdurdodau lleol a mudiadau sy'n rheoli lleoliadau nas cynhelir:**

A8 ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i ymarferwyr ar ddulliau trochi o ddysgu iaith ac i roi arweiniad ar sut y gellir datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) mewn ffordd sy'n gydnaws ag athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen;

A9 darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwywyr, i loywi eu Cymraeg, lle bo angen hynny;

A10 rhannu arfer dda o ran datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) ar draws meysydd dysgu ac ardaloedd gweithgarwch yn y Cyfnod Sylfaen; a

A11 sicrhau bod darpariaeth gefnogol awdurdodau lleol i leoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg ar gael yn Gymraeg.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A12 sicrhau bod awdurdodau ac ysgolion yn deall y gyd-berthynas rhwng methodoleg ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

## Safonau a chynnydd mewn Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen

23 Yn 2012 y cafwyd asesiadau athro statudol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen am y tro cyntaf. Oherwydd hynny, nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth ystyrlon gyda safonau cyfnod allweddol 1 mewn blynyddoedd cynt. Cafodd 21.9% o ddisgyblion Cymru eu hasesu mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg).

24 Fel a welir yn y tabl hwn, yn ôl asesiadau'r Cyfnod Sylfaen 2011-2012, mae 86% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg ar draws Cymru'n cyflawni yn ôl y disgwyl (deilliant 5 neu uwch) ym maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg).

**Tabl 1: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen pob disgybl, yn ôl deilliant, 2012 (deilliant 5+)**

| | **Cyfrwng Saesneg %** | **Cyfrwng Cymraeg %** | **Pob ysgol %** |
|---|---|---|---|
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPCh)** | 91.1 | 92.6 | 91.4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg) (ILlCS)** | 84.3 | 82.2 | 84.3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) (ILlCC)** | - | 86 | 86 |
| **Datblygiad mathemategol (DatMath)** | 86.9 | 88.3 | 87.3 |
| **Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)** | 80.8 | 81.9 | 81.1 |
| | | | |
| **Nifer o ysgolion cynradd** | 890 | 446 | 1336 |
| *Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd deilliant 5 neu uwch mewn DPCh, ILlCS/ILlCC a DatMath gyda'i gilydd* | | | |

25 Dengys tabl 2 isod nad oes patrwm clir rhwng deilliannau maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) a natur ieithyddol draddodiadol awdurdodau. Yn gyffredinol, mae'r awdurdodau lleol sy'n cynnwys ardaloedd traddodiadol Cymraeg yn perfformio rhwng 82% ac 87%. Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r canran uchaf ac isaf eu perfformiad ym maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) y tu allan i'r ardaloedd traddodiadol Cymraeg.

**Tabl 2: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg), pob disgybl, yn ôl awdurdod lleol, 2012 (deilliant 5+)**

| Awdurdod lleol | % |
|---|---|
| Ynys Môn | 86.5 |
| Gwynedd | 87.6 |
| Conwy | 80.1 |
| Sir Ddinbych | 88.4 |
| Sir y Fflint | 84.1 |
| Wrecsam | 88.0 |
| Powys | 80.8 |
| Ceredigion | 86.1 |
| Sir Benfro | 82.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 85.4 |
| Abertawe | 85.8 |
| Castell-nedd Port Talbot | 85.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 87.3 |
| Bro Morgannwg | 91.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 82.3 |
| Merthyr Tudful | 87.9 |
| Caerffili | 87.7 |
| Blaenau Gwent | - |
| Torfaen | 77.5 |
| Sir Fynwy | - |
| Casnewydd | 91 |
| Caerdydd | 89.6 |
| | |
| Cymru | 85.9 |

26 Ar y lefelau uwch na'r disgwyl (deilliant 6), mae'r canlyniadau ar gyfer sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) yn agos iawn at ganlyniadau iaith llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg a datblygiad mathemategol. Mae datblygiad personol, cymdeithasol a lles yn sylweddol uwch.

**Tabl 3: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen pob disgybl, yn ôl deilliant, 2012 (Deilliant 6)**

| | Cyfrwng Saesneg % | Cyfrwng Cymraeg % | Pob ysgol % |
|---|---|---|---|
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPCh)** | 38.2 | 41 | 38.6 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg) (ILICS)** | 26 | 20 | 25.6 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) (ILICC)*** | 41.2 | 24.8 | 24.8 |
| **Datblygiad mathemategol (DatMath)** | 24.7 | 23.2 | 24.2 |

- Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dilyn ILICC yn isel iawn (llai nag 20) felly ni ellir gwneud dadansoddiad ystyrlon o'r ffigwr hwn.

27 Yn ôl Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2011-2012, yn gyffredinol, ar draws y sectorau cyfrwng-Cymraeg a Saesneg,

> ‘Mewn dros bedair o bob pump o’r ysgolion, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando’n ofalus ac yn siarad yn hyderus. Mae eu geirfa’n cynyddu. Mae llawer o’r disgyblion yn darllen testunau priodol yn eithaf cywir. Maen nhw’n deall y testun yn dda ac yn defnyddio’u gwybodaeth am ffoneg i weithio allan unrhyw eiriau anghyfarwydd.’

28 Eto, yn ôl Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2011-2012, ar draws y sectorau cyfrwng-Cymraeg a Saesneg:

> ‘Mae’r rhan fwyaf o blant y lleoliadau a gafodd eu harolygu’n gwneud cynnydd da o ran eu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar… Mae’r plant yn y rhan fwyaf o’r lleoliadau’n gwrando’n dda, yn siarad yn glir ac yn mwynhau gwrando ar storïau a rhannu llyfrau ag oedolion. Mae’r plant hŷn a mwy aeddfed yn dechrau deall pwysigrwydd ysgrifennu, fel ysgrifennu rhestr cyn ymweld â’r siop neu wrth anfon gwahoddiad i barti. Mae plant ychydig o’r lleoliadau’n adnabod eu henwau ar eu matiau ar y bwrdd bwyd ac ar arddangosiadau ar y wal’

29 Yn ôl yr Adroddiad Blynyddol, nid yw medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu cystal. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn or-ddibynnol ar gymorth a chanllawiau gan athrawon. Nid yw cyflwyniad eu gwaith ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm yn ddigon cywir a thaclus. Mae canlyniadau’r arolwg hwn yn atgyfnerthu’r farn hon.

**Siarad a gwrando**

30 Yn gyffredinol, mae plant 3-4 oed, a disgyblion 4-7 oed mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn dangos cynnydd da yn eu gallu i siarad Cymraeg gyda’i gilydd a chydag oedolion yn yr ysgol. Maent yn sgwrsio’n gynyddol hyderus wrth symud drwy’r Cyfnod Sylfaen ac yn datblygu eu geirfa gyffredinol a phenodol yn effeithiol. Bron ymhob achos, Cymraeg yw’r iaith gyfathrebu ar bob achlysur rhwng y disgyblion a’r oedolion. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i sesiynau ffocws a gweithgareddau strwythuredig eraill sy’n anelu at ddatblygu eu medrau llafar.

31 Mae plant 3-4 oed yn y lleoliadau a’r ysgolion hynny lle mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref yn sgwrsio’n naturiol ac yn aml yn fywiog. Gall y rhan fwyaf ohonynt gynnal sgyrsiau estynedig yn ddigymell ar amrywiol bynciau, a gall llawer ohonynt gyfathrebu gwybodaeth, teimladau, dymuniadau a barn yn glir mewn iaith rywiog. Lle mae cyfle iddynt symud o gwmpas y gwahanol ardaloedd gweithgarwch, maent yn cadw at y Gymraeg ac yn defnyddio’r eirfa sy’n briodol i’r cyd-destun. Mae’r lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn datblygu iaith lafar raenus yn gyflym, ac yn cymryd rhan lawn yn holl weithgarwch y lleoliad neu’r ysgol. Maent yn datblygu geirfa gyfoethog ac yn cymhwyso’u medrau llafar yn gynyddol effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

32 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion mewn ardaloedd lle mai prin yw’r disgyblion sy’n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg, mae cynnydd llafar disgyblion 3-4 oed yn

gyffredinol yn dangos cynnydd da o'u man cychwyn. Mae llawer ohonynt yn medru sgwrsio fwyfwy am bethau pob dydd yn rhwydd, ac maent yn datblygu geirfa dda sy'n ymwneud â'r meysydd gweithgarwch yn y lleoliad neu'r ysgol. Mewn sefyllfaoedd ffurfiol defnyddiant y Gymraeg yn gyson effeithiol. Mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt dan oruchwyliaeth uniongyrchol oedolyn, prin yw'r defnydd o'r Gymraeg rhwng disgyblion a'i gilydd mewn llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn. Mae llawer o ddisgyblion 4-7 oed yn yr ardaloedd hyn yn gwneud cynnydd cyson a da yn eu medrau siarad a gwrando. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn ddieithriad gydag oedolion ac, fel arfer, gyda'i gilydd mewn sefyllfa ffurfiol. Fodd bynnag, mewn ychydig ysgolion yn unig mae disgyblion yn cadw at y Gymraeg wrth sgwrsio gyda'i gilydd yn anffurfiol.

33 Mewn lleoliadau lle mai cymysg yw cefndir ieithyddol plant, nid yw cynnydd llafar plant 3-4 oed o'u man cychwyn cystal. Mae cynnydd llafar lleiafrif o blant yn gadarn, a gallant sgwrsio'n gynyddol hyderus mewn amrywiol sefyllfaoedd, yn ffurfiol ac anffurfiol. Yn y mwyafrif o'r ysgolion hyn, fodd bynnag, nid yw disgyblion, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle siaredir Cymraeg, mor barod i sgwrsio'n Gymraeg gyda'i gilydd, ac nid ydynt yn ymateb mor barod i oedolion sy'n siarad Cymraeg gyda nhw. Mae cynnydd gormod o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn rhy araf, a chynnydd rhai plant o gartrefi Cymraeg yn cael ei lesteirio. Er bod eu hymateb cadarnhaol i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan oedolion yn dangos eu bod yn deall, nid yw rhai plant yn ymroi digon i ddefnyddio'r Gymraeg.

34 Mae safonau llafar disgyblion 4-7 oed mewn ysgolion lle mae disgyblion yn hanu o gefndir ieithyddol gymysg yn amrywio. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae'r disgyblion yn datblygu safonau llafar da, ac yn medru eu cymhwyso i ystod eang o weithgarwch ar draws y meysydd dysgu. Mewn rhai ysgolion, fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn gweld y Gymraeg fel iaith naturiol yr ysgol, ac nid ydynt yn llwyddo i drosglwyddo eu medrau llafar yn llwyddiannus i gyd-destunau dysgu amrywiol.

**Astudiaeth achos 1: Datblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion mewn ardal chwarae rôl**

**Cyd-destun:**
Cynhelir Ysgol Feithrin Rhydaman gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Daw mwyafrif y disgyblion o gartefi lle na siaredir Cymraeg. Mae tua 75 o blant o oed meithrin a derbyn yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dymuniad eu rhieni. Mae'r mwyafrif yn cael eu haddysgu yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae mwyafrif plant y ffrwd Gymraeg yn siarad Saesneg gartref.

**Strategaeth:**
Mae ardal chwarae rôl, sy'n newid yn ôl themâu gweithgarwch yr ysgol ar y pryd, yn rhan barhaol o'r ddarpariaeth. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod adnoddau ac offer pwrpasol yn cael eu gosod yn yr ardal gan gynnwys bob amser lyfrau, taflenni neu ddeunydd darllen arall ar gyfer y disgyblion. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu neu wneud marciau, beth bynnag yw thema'r ardal chwarae rôl.

**Gweithredu:**
Trefnwyd yr ardal chwarae rôl yn ysbyty. Yr oedd derbynfa i groesawu cleifion yn cynnwys ffôn a chyfrifiadur, clipfyrddau ar gyfer nyrsus a doctoriaid, a hysbysfyrddau i ysgrifennu enwau cleifion arnynt. Yr oedd adnoddau addas – dillad, offer meddygol, gwely ac ati – hefyd ar gael.Yr oedd yr ymarferwyr wedi bod yn bwydo a modelu geirfa addas a heriol i'r ardal ac roedd nifer o gardiau a labeli yn cael eu harddangos. Yng nghwmni un o'r cynorthwywyr, yr oedd y disgyblion yn cymryd rolau gwahanol ac yn sgwrsio'n hyderus gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau a fodelwyd iddynt. Cefnogai'r cynorthwyydd y gweithgaredd trwy ofyn cwestiynau agored a pherthnasol oedd yn hybu disgyblion i ymateb yn estynedig.

**Canlyniadau:**
Chwaraeai pob plentyn rolau gwahanol, ac roeddent yn llwyddo i ddefnyddio'r eirfa yn effeithiol iawn. Roeddent yn mwynhau'r chwarae ac yn yn gallu dwyn i gof a defnyddio geiriau fel 'penglog', 'asgwrn', 'archwilio' yn rhwydd ac yn gywir. Roeddent hefyd yn adnabod y geiriau hynny mewn pecyn o gardiau geirfa.

Roedd y disgyblion yn 'ysgrifennu' enwau a nodiadau meddygol ar ddarnau o bapur a chlipfyrddau wrth ddilyn y broses o dderbyn claf i'r ysbyty, ei archwilio a'i drin.

**Darllen**

35 Yn y mwyafrif o leoliadau nas cynhelir, mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau a deunydd darllen yn hyderus wrth symud o gwmpas yr ardaloedd gweithgarwch. Maent yn mwynhau gwrando ar stori ac yn ymateb yn frwdfrydig iddi. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau, ac yn trafod y lluniau mewn llyfrau. Wrth chwarae, maent yn medru creu, gweld ac egluro patrymau gyda theganau, siapau a gleiniau ac, mewn rhai lleoliadau, maent yn adnabod eu henwau eu hunain yn dda iawn.

36 Mae llawer o blant 3-4 oed mewn llawer o ysgolion hefyd yn ymateb yn dda i ddeunyddiau a gweithgareddau cyn-darllen. Maent yn manteisio'n dda ar sesiynau

darllen strwythuredig ac yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol yn ôl eu gallu, trwy adeiladu'n dda ar y medrau cynnar. Mae disgyblion 4-7 oed yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da yn eu darllen wrth symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gallu darllen deunydd sy'n briodol o ran cyrhaeddiad, ac yn defnyddio nifer o strategaethau i ddarllen geiriau sy'n anghyfarwydd iddynt. Gallant drosglwyddo'r medrau hyn yn llwyddiannus i ddarllen testunau addas amrywiol nad ydynt yn rhan o'r deunydd dysgu darllen ffurfiol.

**Astudiaeth achos 2: Cynllunio i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau iaith a llythrennedd ar draws chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen**

**Cyd-destun:**
Ysgol ar gyfer disgyblion o dair hyd at wyth oed o fewn awdurdod lleol Gwynedd yw Ysgol Babanod Morfa Nefyn. Mae tua 50 o ddisgyblion yn yr ysgol, bron pob un ohonynt yn dod o gartref lle siaredir Cymraeg, ac mae safonau llafar Cymraeg y disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn gyffredinol uchel.

**Strategaeth:**
Mae'r ysgol yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygiad llafar disgyblion fel sail i holl weithgarwch yr ysgol. Mae medrau darllen yn cael eu cyflwyno yn ystod sesiynau'r bore ac yn cael eu cymhwyso a'u datblygu'n effeithiol iawn yn ystod gweithgareddau'r dydd. Mae pob gweithgaredd mewn ardaloedd dysgu yn gyfle i ddatblygu medrau llythrennedd y plant, yn llafar, darllen ac ysgrifennu.

**Gweithredu:**
Yn ogystal â chanolbwyntio'n gadarn ar weithgarwch ffocws i ddatblygu medrau darllen disgyblion, mae'r athrawon yn darparu cwriwcwlwm ymarferol iawn ei naws ar gyfer gweithgarwch ar draws chwe maes dysgu y Cyfnod Sylfaen. Yn ystod y sesiynau ymarferol hyn, mae ffocws amlwg ar drafodaeth rhwng disgyblion ac oedolion, a rhwng disgyblion a'u gilydd, fel man cychwyn pob gweithgarwch. Mae disgyblion yn cael eu hannog i archwilio ac arbrofi yn unigol, ac ar y cyd, er mwyn ateb cwestiynau, datrys problemau a chyflawni heriau.

Mae pob gweithgarwch yn arwain at y disgyblion yn cofnodi eu canfyddiadau mewn rhyw ffurf.

Er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu o un flwyddyn i'r llall, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd iddynt arbrofi gyda'u cyfathrebu ysgrifenedig eu hunain ar gyfer eu dibenion eu hunain yn yr ardaloedd amrywiol.

Maent hefyd yn archwilio ystod o ddeunyddiau ysgrifennu fel ysgrifbinnau, pensiliau, creonau, sialc a phaent. Mae hyn wedi ei gynllunio yn ofalus ar draws yr holl feysydd dysgu a'r ardaloedd gweithgaredd.

**Canlyniadau:**
Mae safonau iaith y disgyblion ar lafar, wrth ddarllen ac ysgrifennu yn uchel iawn. Gallant sgwrsio'n rhugl a brwdfrydig am eu holl weithgareddau, darllen ystod eang iawn o destunau gwahanol, ac ysgrifennu'n gywir ac estynedig ar draws y meysydd dysgu.

37 Mewn lleiafrif o leoliadau ac ysgolion, nid yw'r plant neu disgyblion yn cael digon o gyfle i ddarllen deunyddiau amrywiol o fewn ardaloedd gweithgarwch, ac eithrio mewn cornel ddarllen. Yn y lleoliadau a'r ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn cymwhyso'u medrau darllen yn ddigon da y tu allan i'r sesiynau strwythuredig. Nid ydynt yn defnyddio darllen yn ddigon effeithiol i'w cynorthwyo i ddatblygu medrau a gwybodaeth ar draws chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

**Ysgrifennu**

38 Yn y mwyafrif o leoliadau ac ysgolion, mae plant 3-4 oed yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Mewn lleoliadau nas cynhelir, yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn ymroi'n ddigymell i weithgareddau cyn-ysgrifennu i ddatblygu medrau echddygol manwl yn llwyddiannus. Defnyddiant amrywiaeth o gyfryngau i greu marciau a phatrymau, gan gynnwys gwaith ar bapur, ar fyrddau gwyn, ac ar raddfa fawr mewn ardaloedd allanol, er enghraifft, gyda dŵr neu sialc. Mae lleiafrif hefyd yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n hyderus i ddatblygu'r medrau hyn. Mae plant 3-4 oed mewn ysgolion yn gwneud cynnydd tebyg.

39 Mewn ysgolion, mae llawer o ddisgyblion 4-7 oed yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd ffurfiol i ddatblygu eu gallu i ysgrifennu geiriau a brawddegau. Maent yn datblygu i ysgrifennu darnau mwy estynedig mewn ffurfiau gwahanol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, maent yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n gywir, ac yn medru defnyddio'u medrau'n effeithiol i gyfoethogi eu profiadau ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion hynaf y Cyfnod Sylfaen yn dibynnu'n ormodol ar ganllawiau a chymorth gan athrawon a chynorthwywyr, ac mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar eu datblygiad fel ysgrifenwyr annibynnol.

40 Mewn lleiafrif o ysgolion, er bod disgyblion yn ysgrifennu ar ystod o destunau a ffurfiau, maent yn gwneud hynny o fewn cyd-destunau ffurfiol sesiynau ffocws yn unig. Nid ydynt yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn wirfoddol mewn ardaloedd gweithgarwch anffurfiol er mwyn atgyfnerthu eu medrau mewn ystod o sefyllfaoedd.

**Astudiaeth achos 3: Defnyddio stori fel sbardun i waith iaith ar draws y meysydd dysgu**

**Cyd-destun:**
Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Nantcaerau yn ysgol gymharol newydd yng Ngorllewin Caerdydd nad yw wedi cyrraedd ei llawn dwf eto. Disgyblion hyd at Flwyddyn 5 yn unig oedd ynddi ar adeg yr ymweliad. Er mai ysgol cyfrwng-Cymraeg ydyw, daw bron pob un o'r 120 disgybl o gartrefi lle na siaredir Cymraeg.

**Strategaeth:**
Mae'r athrawes a'r cynorthwywyr ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio llyfrau a straeon fel sbardun i amrywiaeth o weithgarwch ieithyddol ar draws y cwricwlwm. Maent yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod gweithgarwch a heriau dilynol, gan gynnwys tasgau ysgrifennu, ar gael i'r disgyblion ar draws ardaoledd gweithagrwch y dosbarth, gan gynnwys yr ardal allanol.

**Gweithredu:**
Yn dilyn sesiwn ffocws oedd yn cyflwyno stori am gawr, trefnodd yr athrawes weithgarwch i'r disgyblion i ddatrys dirgelwch diflaniad y cawr. Roedd yr athrawes a'r cynorthwywyr wedi sicrhau bod nifer o gliwiau mewn llawer o'r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan i'r ystafell i sbarduno trafodaeth ymhlith y disgyblion, a heriau penodol iddynt eu cyflawni. Roedd yr heriau'n arwain at weithgarwch megis darllen er mwyn casglu gwybodaeth, ysgrifennu dyddiadur, deialog a llythyron. Roedd pwyslais amlwg ar adael i'r disgyblion ddewis pa heriau i ymateb iddynt.

**Canlyniadau:**
Yr oedd y gweithgarwch wedi tanio brwdfrydedd y disgyblion, ac roeddent yn eiddgar iawn i ddatrys y dirgelwch. Roeddent yn trafod yn ddeheuig gyda'i gilydd, a chyda'r atharwes a'r cynorthwywyr, a oedd yn llywio'r sgyrsiau trwy gwestiynu celfydd. Roedd y disgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau – e.e. dyddiadur y cawr, cyfarwyddiadau, mapiau – ac yn ysgrifennu darnau safonol o ysgrifennu, megis llythyron, cofnodi eu tasgau, disgrifio taith y cawr.

## Y ddarpariaeth addysgol a'r amgylchedd dysgu

### Cynllunio ac addysgu

41 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant 3-4 oed. Mae datblygiad iaith yn flaenoriaeth amlwg, ac mae pwyslais y mwyafrif o leoliadau ac ysgolion ar ddatblygu medrau llafar da yn gynnar er mwyn gosod sail gadarn ar gyfer datblygu darllen ac ysgrifennu. Bron ym mhob ysgol, mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad o fewn y maes dysgu. Mewn lleoliadau nas cynhelir, nid yw lleiafrif o ymarferwyr yn rhoi digon o ystyriaeth i ddilyniant a pharhad wrth gynllunio gweithgareddau i blant. Mae cynlluniau gwaith y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir yn dyrannu cyfrifoldebau clir i ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwywyr, ar gyfer eu gweithredu yn yr ardaloedd gweithgaredd.

42 Mewn ysgolion, mae tuedd gyffredinol i ganolbwyntio ar weithgareddau mwy ffurfiol i hybu darllen ac ysgrifennu yn ystod y bore ar gyfer y disgyblion 4-7 oed. Weithiau, mae athrawon yn gweld tensiwn rhwng strwythur ffurfiol y sesiwn iaith a gofynion athroniaeth ganolog y Cyfnod Sylfaen ar i blant fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu trwy ymgymryd â gweithgareddau'n wirfoddol. Yn yr achosion hyn, nid oes digon o weithgareddau iaith perthasol ar draws yr ardaloedd dysgu gwahanol.

43 Bron ym mhob ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio yn fanwl ar gyfer datblygu iaith lafar y plant 4-7 oed. Mewn ychydig o achosion lle mae arfer dda, mae hyn yn cynnwys rhestrau o eiriau ac ymadroddion i'w cyflwyno mewn ardaloedd a meysydd dysgu penodol. O ganlyniad i hyn, mae yna ddilyniant ieithyddol gadarn o flwyddyn i flwyddyn fel bod yna barhad ac eglurder yn y ddarpariaeth. Mae'r athrawon hefyd yn cynllunio yn fanwl ar gyfer darllen wrth chwarae, gan sicrhau bod yna adnoddau effeithiol a phwrpasol yn y corneli gweithgareddau e.e. taflenni, arddangosfeydd, posteri a llyfrau lloffion. Serch hyn, nid yw'r un manylder i'w weld yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu mewn gweithgareddau ar wahân i'r rhai ffurfiol mewn iaith.

44 Yn yr ychydig ysgolion mwyaf llwyddiannus, mae ystod eang o weithgareddau yn cael eu cynllunio ar draws holl feysydd addysgu'r cwricwlwm i adeiladu ar y gweithgareddau ffocws iaith sydd yn digwydd yn y bore. Nid yw datblygiad iaith yn cael ei ystyried yn weithgaredd ynysig ac o'r herwydd mae'n cael lle canolog yn addysg y plant. Mae'r trosolwg ieithyddol wedi ei fapio ar draws holl feysydd y cwricwlwm, gyda chynllun iaith ar gyfer pob maes dysgu a'r staff yn cynllunio yn ôl y canllawiau hyn. Mae'r cynlluniau'n dangos yn glir sut y gall oedolion gefnogi disgyblion yn eu dysgu, ac yn cynnig canllawiau ar sut i ymyrryd a chefnogi. Mae hyn yn arbennig o lwyddiannus pan fydd cynorthwywyr yn cymryd cyfrifoldeb am nifer o'r ardaloedd gweithgaredd.

45 Lle nad oes digon o gynorthwywyr ar gael i gefnogi pob grŵp, fel arfer mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys disgyblion o ystod eang o oedran, mae rhai ysgolion yn sicrhau bod y cynorthwywyr yn fwy hyblyg, ac yn symud o gwmpas y dosbarth. Mae'r ysgolion yn gweld ymyrraeth gan yr oedolion hyn yn bwysig, gan ei fod yn galluogi staff i hybu defnydd o'r Gymraeg ac i fodelu iaith raenus. Mewn ychydig o ysgolion, mae cynllunio dyddiol yn galluogi ymarferwyr i ymateb yn gyflym i ddiddordebau disgyblion. Maent yn gwneud hyn trwy ymestyn neu newid y gweithgareddau yn yr ardaloedd parhaus ond gan gadw'r ffocws ar yr un medrau i'w datblygu.

**Astudiaeth achos 4: Cynllunio'n benodol i sicrhau cefnogaeth gadarn i ddisgyblion o fewn y ddarpariaeth barhaus**

**Cyd-destun:**
Ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Drenewydd ym Mhowys yw Ysgol Gymraeg Dafydd Llwyd. Mae tua 160 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol a daw'r rhan fwyaf ohonynt o gartrefi lle na siaredir Cymraeg.

**Strategaeth:**
Mae'r athrawes sy'n gyfrifol am arwain y dysgu yn y flwyddyn derbyn yn cynllunio gweithgareddau i gyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus yn wythnosol. Mae'r cynlluniau hynny'n amlinellu'r gweithgarwch y bydd disgyblion yn ymgymryd â nhw mewn gwahanaol ardaloedd a'r medrau y byddant yn eu datblygu. Maent yn gynlluniau manwl sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion ac yn gweddu i themâu gweithgarwch yr ysgol ar y pryd.

**Gweithredu:**
Mae'r athrawes gyfrifol yn nodi cyfrifoldebau'r cynorthwywyr yn glir ar y cynlluniau. Gan fod rhai cynorthwywyr yn llai profiadol, mae'r canllawiau ar gyfer rheiny yn fanwl iawn ac yn gosod cyfeiriad clir. Mae'r canllawiau'n nodi pa fath o gwestiynau y dylai'r cynorthwywyr eu gofyn i'r disgyblion, pa eirfa benodol sydd angen ei bwydo a'i modelu ac yn awgrymu patrymau ieithyddol i'w dilyn.

**Canlyniadau:**
O ganlyniad, mae cyfrifoldebau cynorthwywyr yn eglur, mae model cyson ac effeithiol o ddatblygu iaith wrth gyflawni gweithgareddau, ac mae effaith gadarnhaol ar ddatblygiad Cymraeg y disgygyblion. Mae'r cynlluniau'n adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu disgyblion ac mae cysondeb amlwg yn y gefnogaeth y mae'r disgyblion yn ei derbyn oddi wrth yr oedolion yn y dosbarth.

46 Mae tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynllunio gwaith ar gyfer grwpiau o ddisgyblion yn ôl eu gallu mewn iaith. Mae'r ysgolion gorau o'r rhain yn gwneud hyn ar gyfer gweithgareddau ffocws yn unig, gan ganiatáu mwy o annibyniaeth i ddisgyblion yng ngweddill eu gweithgareddau. Fodd bynnag, mae'r gweddill yn cadw'r disgyblion yn yr un grwpiau gydol y dydd. Canlyniad hyn, fel arfer, yw datblygu cylchdro o weithgareddau penodol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion yn eu tro nad yw'n rhoi digon o gyfle i ddisgyblion weithio'n annibynnol a dilyn eu trywydd dysgu eu hunain. Hefyd, nid yw rhai ysgolion yn cynllunio'u hardaloedd gweithgareddau'n ddigon tynn ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn wynebu heriau digon penodol wrth ymweld â'r ardaloedd hynny.

47 Ychydig o ysgolion sy'n llwyddo i ateb gofynion ieithyddol disgyblion yn ogystal â rhoi cyfleoedd da iddynt ddatblygu annibyniaeth yn eu dysgu. Mae'r ysgolion hynny yn darparu gweithgareddau ffocws clir ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ac yn darparu cyfleoedd penodol i ddatblygu'r medrau hynny yn yr ardaloedd ac ar draws y meysydd dysgu. Fel arfer, mae heriau darllen ac ysgrifennu i'w gweld o fewn yr ardaloedd, a disgwyliad clir i ddisgyblion wirfoddoli i'w cwblhau yn ystod cyfnod o amser. Yn aml, mae'r heriau hyn yn dasgau sydd wedi eu gwahaniaethu yn effeithiol fel eu bod yn addas ar gyfer yr holl ystod o ddisgyblion yn y dosbarth.

48 Yn gyffredinol, mae ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion yn ymwybodol o egwyddorion allweddol dysgu iaith. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant gan yr awdurdodau addysg a mudiadau eraill er mwyn gwella'u dealltwriaeth o ddulliau trochi. Mae'r ymarferwyr gorau yn arddel a modelu iaith raenus gan gynnwys ymadroddion, idiomau a geirfa gyfoethog.

49 Mewn ychydig o leoliadau nas cynhelir, yn arbennig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o Gymry Cymraeg yn byw, nid yw safon iaith rhai o'r ymarferwyr yn ddigon cadarn, ac o ganlyniad, nid ydynt yn medru bwydo a modelu iaith o'r safon angenrheidiol i'r disgyblion. Mae gan y mwyafrif o ymarferwyr ddealltwriaeth glir o athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen, ond nid yw lleiafrif ohonynt yn llwyddo i gymhwyso hynny'n llwyddiannus i ddatblygu iaith ar draws y meysydd dysgu.

50 Yn yr arfer orau, mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau iaith gwahaniaethol o fewn yr ardaloedd gweithgaredd ac yn ystyried pa adnoddau a gweithgareddau i'w defnyddio er mwyn diwallu anghenion plant unigol. Mae cyfarfodydd cynllunio rheolaidd sy'n cynnwys cyfraniadau gan yr holl staff, gan gynnwys cynorthwywyr. O ganlyniad, bydd pob plentyn yn derbyn cefnogaeth sydd yn addas i allu a chyrhaeddiad yr unigolyn. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cymorth ychwanegol ar lefel grŵp neu unigolyn, addasu offer i fodloni anghenion plant neu osod amcanion dysgu penodol wedi eu gwahaniaethu.

51 Mewn ysgolion llai eu maint, mae ystod eang o ddisgyblion o dan ofal athro/athrawes. Oherwydd bod gwahaniaethau mewn cymhareb disgybl i oedolyn wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, mae'r nifer o gynorthwywyr yn lleihau. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn llwyddo i gynllunio'r ddarpariaeth fel bod pob plentyn yn gweithio i safon briodol, ac yn dangos cynnydd da wrth fynd yn hŷn. Maent yn sicrhau bod gweithgareddau addas ar gyfer disgyblion o wahanol allu a chyrhaeddiad yn cael eu darparu yn yr ardaloedd gweithgaredd. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid oes digon o gefnogaeth i roi arweiniad a chynhaliaeth briodol i ddisgyblion o wahanol oed a gallu mewn ysgolion llai eu maint. Nid yw gweithgareddau'n cael eu targedu'n ddigon effeithiol i ateb anghenion pob disgybl ac nid yw disgwyliadau yn ddigon uchel.

## Yr amgylchedd dysgu

52 Yn gyffredinol, mae'r lleoliadau a'r ysgolion wedi trefnu'r amgylchedd dysgu yn dda. Mae adnoddau pwrpasol o ansawdd da ar gael i'r disgyblion

53 Yn yr ysgolion a'r lleoliadau gorau, mae'r amgylchedd dysgu wedi ei gynllunio a'i osod yn ofalus i sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau penodol. Mae'r athrawon yn ei ddefnyddio'n gelfydd i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Ceir adnoddau amrywiol sy'n cael eu trefnu'n dda er mwyn ennyn yr ymateb gorau oddi wrth y plant. Mae'r amgylchedd dysgu yn cynnwys ardaloedd gweithgarwch y tu fewn a thu allan i'r adeilad ac mae mynediad rhwydd o'r naill i'r llall. O ganlyniad, mae natur y gweithgareddau a'r ardaloedd yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu effeithiol yn gyson.

**Astudiaeth achos 5: Sicrhau amgylchedd dysgu pwrpasol ar gyfer datblygiad iaith ar draws y chwe maes dysgu**

**Cyd-destun:**
Mae Ysgol Saron yn ysgol gynradd fawr ger Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Er i'r ysgol gael ei lleoli mewn ardal sy'n draddodiadol Gymraeg, daw llawer o'r 260 disgyblion o gartrefi lle na siaredir Cymraeg.

**Strategaeth:**
Mae'r Cyfnod Sylfaen i gyd, o oed meithrin hyd at diwedd Blwyddyn 2, wedi cael ei drefnu yn ardaloedd gweithgarwch amrywiol, y tu fewn a thu allan i'r adeilad, ac mae disgyblion o wahanol oed yn medru symud yn rhwydd o un amgylchedd dysgu i'r llall. Gan ddilyn themâu cyffredin, yn aml yn seiliedig ar adnabod llythrennau penodol neu fedrau darllen, mae cyfres o heriau clir ar gael bron ym mhob ardal.

**Gweithredu:**
Y disgyblion sy'n dewis a ydynt yn cwblhau'r heriau neu beidio ond, fel arfer, maent yn ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig. Oherwydd y drefniadaeth fanwl, mae cynorthwywyr ar gael i gefnogi disgyblion bron ym mhob her. Mae rheiny'n adnabod y disgyblion yn dda ac yn medru darparu cefnogaeth a chymorth yn ôl eu anghenion unigol. Mae eu cyfrifoldebau wedi eu dyrannu'n glir, ac maent yn fodelau iaith cadarn ar gyfer y disgyblion. Maent yn ymwybodol o'r medrau sy'n cael eu datblygu ym mhob her a gweithgarwch ac felly'n medru cofnodi cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn.

**Canlyniadau:**
Mae'r heriau yn ddieithriad yn arwain at waith cofnodi neu ysgrifennu, ac mae'r disgyblion fel arfer yn gorfod darllen yr her eu hunain (gyda chymorth os oes ei angen). Mae natur yr heriau'n golygu bod disgyblion yn gwneud gwaith ymchwiliol yn annibynnol, ac yn gweithio gyda'i gilydd mewn parau neu grwpiau bach. O ganlyniad i'r heriau, mae medrau dysgu annibynnol a medrau ieithyddol disgyblion yn datblygu'n dda ochr yn ochr â'i gilydd

54 Oherwydd iddynt gael eu lleoli mewn neuaddau neu ystafelloedd sydd ar gael dros dro, mae rhai lleoliadau nas cynhelir yn gorfod gosod a chlirio'r ardaloedd dysgu'n ddyddiol. Mae'r lleoliadau gorau yn rheoli'r sefyllfa hon yn yn effeithiol iawn, ac yn sicrhau trwy gynllunio gofalus bod adnoddau da'n cael eu trefnu'n effeithiol i sicrhau profiad dysgu o safon gyson i'r disgyblion.

55 Mewn ychydig leoliadau ac ysgolion, nid yw'r ardal allanol wedi ei datblygu'n ddigonol i fod yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol, ac nid yw'n darparu cyfleoedd penodol i ddatblygu medrau iaith disgyblion. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ymdrechu'n dda i sicrhau bod disgyblion yn derbyn profiadau dysgu tu allan, nid oes ardal allanol ar gael sy'n estyniad naturiol o ystafell ddysgu'r disgyblion. Mewn lleiafrif bach o ysgolion, nid yw'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal allanol sydd ar gael iddynt. Maent yn defnyddio'r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau rhydd megis defnyddio teganau mawr, neu bwll tywod, heb eu cyfoethogi gan heriau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn medru defnyddio adnoddau'r ardal allanol yn effeithiol i wella eu medrau iaith, yn arbennig darllen ac ysgrifennu.

**Astudiaeth achos 6: Sicrhau amgylchedd dysgu ysgogol**

**Cyd-destun:**
Mae Cylch Meithrin Bro Elfed yn cyfarfod mewn adeilad hen ysgol y pentref, sydd bellach yn neuadd gymunedol. Daw llawer o'r deuddeg i bymtheg disgybl o gartefi Cymraeg eu hiaith.

**Strategaeth:**
Gan ddilyn cynllun clir a osodwyd ar bapur, mae nifer o ardaloedd gweithgarwch yn cael eu trefnu'n ofalus a chyson a'u gosod allan yn ddyddiol. Mae holl feysydd dysgu'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yn cael eu hateb yn y ddarpariaeth sy'n cynnwys ardaloedd megis cornel darllen, ardal fathemategol, cornel chwarae rôl (tŷ bach twt yn ystod yr ymweliad), ardal ar gyfer teganau mawr, ardal farcio yn cynnwys gweithgarwch gyda phaent, cyfrifiadur gyda rhaglenni addas yn ôl y thema (Lliwiau).

**Gweithredu:**
Dan gyfarwyddyd yr aweinydd, mae'r cynorthwywyr yn llwyr ymwybodol o'u rolau, ac yn cynnal y plant mewn gweithgarwch penodoedig gan ganolbwyntio ar ddatblygu geirfa lafar. Mae adnabyddiaeth yr ymarferwyr o anghenion pob plentyn yn dda iawn. Maent yn addasu i anghenion ieithyddol y plant yn eu gofal, gan roi sylw penodol i ddatblygu geirfa'r ardal weithgarwch. Maent yn bwydo iaith raenus yn gyson ac yn modelu iaith naturiol a chyfoethog. Mae llyfrau yn rhan amlwg o'r ddarpariaeth, ac nid yn unig o fewn o cornel darllen. Mae amryw gyfleoedd hefyd i blant wneud marciau ar bapur o amrywiaeth ansawdd a maint, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau – paent, pensiliau, creonau, ac ati.

**Canlyniadau:**
O ganlyniad i'r cynllunio gofalus, mae'r plant yn y cylch meithrin yn annibynnol weithgar gydol y sesiwn, a chânt gefnogaeth briodol gan yr arweinydd a'r cynrorthwywyr. Maent yn gwbl gyfarwydd â'r drefniadaeth ac â chynnwys yr ardaloedd ac yn mynd o ardal i ardal yn hyderus. Mae eu safonau llafar yn gyffredinol dda, gyda'r plant sy'n dod o gartrefi lle na siaredir Cymraeg yn gwneud cynnydd da yn gyflym. Dim ond Cymraeg sydd ar wefusau'r rhai o gartrefi Cymraeg a gallant sgwrsio'n rhugl am eu gweithgarwch amrywiol yn y cylch meithrin. Mae bron pob plentyn yn adnabod ei enw ar yr arddangosfa ac ar gefn y cadeiriau. Mae nifer o ddisgyblion yn dewis yn annibynnol edrych ar lyfr, ac maent yn mwynhau gwrando ar stori'n cael eu darllen. Mae llawer ohonynt yn dangos cryn reolaeth ar baent, creonau a phensiliau wrth wneud marciau ac 'ysgrifennu'.

56 O ran hybu datblygiad Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, mae'r lleoliadau ac ysgolion gorau yn darparu ardaloedd gweithgarwch lle gall plant gael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau iaith megis chwarae rôl, datrys posau a chymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau peintio, marcio, canu ac adrodd hwiangerddi, gyda chefnogaeth ymarferwyr. O ganlyniad, mae plant 3-4 oed yn llwyddo i gaffael iaith i safon dda wrth ymgymryd â gweithgareddau sy'n hybu medrau cynnar darllen ac ysgrifennu, yn ogystal â'u medrau llafar. Yn y lleoliadau a'r ysgolion hyn, mae datblygiad iaith yn nodwedd gref ar draws yr ardaloedd dysgu, ac mae adnoddau pwrpasol ar gael ynddynt.

57 Mae ychydig iawn o ysgolion yn dilyn yr arfer ragorol o osod meini prawf llwyddiant ar gyfer gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu ym mhob ardal. Mae'r rhain wedi eu hanelu'n briodol ac yn gynyddol ar gyfer y grwpiau oedran sy'n eu defnyddio ac yn cael eu rhannu'n glir gyda'r disgyblion, ac yn eu cynorthwyo i wybod beth sydd angen iddynt ei gyflawni.

58 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw'r ardaloedd gweithgarwch yn gyffredinol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ieithyddol mewn cyd-destunau amrywiol. Yn gynyddol wrth i'r disgyblion dyfu drwy'r Cyfnod Sylfaen, nid oes digon o adnoddau na chyfleoedd ar gael i'r disgyblion ymarfer darllen ac ysgrifennu mewn amrywiol gyd-destunau y tu allan i'r ardal farcio neu'r cornel darllen, er bod medrau llafar yn cael eu hybu'n effeithiol bron ym mhob ysgol ar gyfer pob oed.

## Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella

### Arweinyddiaeth

59 Bu gweithredu athroniaeth ac anghenion y Cyfnod Sylfaen yn her i leoliadau ac ysgolion. Yr oedd hon yn her o safbwynt datblygu gallu staff i ymwneud â'r cwricwlwm newydd, ond hefyd roedd yn her i addasu'r amgylchedd dysgu i fod yn ddigon hyblyg ac amrywiol i ddarparu gweithgareddau a phrofiadau uniongyrchol sydd yn sbarduno plant i ddysgu. O safbwynt datblygiad sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, yr her oedd sicrhau bod yr ardaloedd gweithgarwch yn cynnig cyfleoedd dysgu fyddai'n sbarduno medrau iaith disgyblion. Yr ysgolion a'r lleoliadau a lwyddodd orau i wneud hynny yw'r rhai hynny lle cafwyd ymrwymiad tîm rheoli'r ysgol i'r broses.

60 Mae arweinwyr a phwyllgorau rheoli y rhan fwyaf o'r lleoliadau nas cynhelir yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda, ac maent yn cynllunio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth. Mae gan arweinwyr mwyafrif y lleoliadau hyn ddulliau hunan-arfarnu effeithiol sy'n eu helpu i adnabod yr anghenion gwella, ac mae cynlluniau gwella ymarferol yn hanu ohonynt. Yng ngweddill y lleoliadau, fodd bynnag, mae'r hunanarfarnu a'r cynlluniau gwella'n aml yn rhy arwynebol ac heb gael effaith ar gynnydd disgyblion. Mae bron pob lleoliad yn gweld datblygiad iaith disgyblion fel blaenoriaeth amlwg.

61 Mewn ysgolion, mae ymrwymiad a dealltwriaeth arweinwyr, nad ydynt o reidrwydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen, yn fwy amrywiol. Yn y lleiafrif o ysgolion lle gwelir yr arfer orau, mae hunan-arfarnu a chynlluniau gwella yn rhoi sylw clir i anghenion datblygu'r Cyfnod Sylfaen, ac mae arweinydd y Cyfnod Sylfaen yn rhan o dîm rheoli'r ysgol. Pan ystyrir materion ysgol gyfan, mae pwyslais priodol ar anghenion y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen ac ar gynnydd disgyblion o oed cynnar. O ganlyniad, gwelir datblygiad parhaus sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu disgyblion fel blaenoriaeth i'r ysgol gyfan.

62 Lle nad yw'r arweinyddiaeth cystal, nid yw datblygu athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen yn flaenoriaeth i dîm rheoli'r ysgol ac nid oes cynllunio digon da i ddarparu digon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol, i ateb gofynion y ddarpariaeth. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn derbyn yr ystod angenrheidiol o brofiadau i ddatblygu medrau iaith ar draws y chwe maes dysgu a gwneud cynnydd priodol.

63 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yn llwyddo i sicrhau bod ganddynt staff a hyfforddwyd yn briodol i weithredu yn ôl athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen. Mewn ychydig o leoliadau ac ysgolion, nid yw pob cynorthwyydd yn medru modelu iaith raenus, oherwydd eu cefndir ieithyddol, nac ychwaith yn cadw at fethodoleg trochi ieithyddol.

64 Darparwyd hyfforddiant i ysgolion gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol, a chan Mudiad Meithrin ac eraill yn y sector nas cynhelir. Mae lefel y gefnogaeth cyfrwng-Cymraeg sydd gan awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol, gyda rhai achosion o awdurdodau nad ydynt yn gallu cynnig cefnogaeth cyfrwng-Cymraeg o gwbl yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, nid yw'r lleoliadau a'r ysgolion yn medru derbyn arweiniad a chefnogaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu'r Gymraeg. Yn rhy aml, nid ydynt yn gallu cefnogi lleoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cynllunio ar gyfer gwella**

65 Mae arweinwyr mewn lleoliadau ac ysgolion, ar y cyfan, yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu disgyblion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r goreuon yn olrhain cynnydd ieithyddol y disgyblion, ac yn monitro'r ddarpariaeth yn barhaus er mwyn arfarnu ei heffaith. Yn yr arfer orau, gwneir hyn trwy gofnodi anffurfiol wrth wylio'r plant yn ymgymryd â'r gweithgareddau dysgu yn y lle cyntaf, a throsglwyddo'r wybodaeth berthnasol i gofnodion mwy ffurfiol sy'n cael eu trosglwyddo gyda'r disgybl i'r cam nesaf yn ei addysg. Mae'r dull hwn yn gyffredin yn y mwyafrif o leoliadau nas cynhelir, ond weithiau nid yw'r sylwadau'n ddigon penodol ac arfarnol, nac yn cynnig ffordd ymlaen i'r plant. Gan nad ydynt yn monitro na chofnodi cynnydd yn ddigon effeithiol, ni allant werthuso'n ddigon manwl ar gyfer hunanarfarnu ac ni allant gynllunio'n effeithiol i ddatblygu gallu llafar, darllen ac ysgrifennu'r plant.

66 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn monitro safonau iaith, ac yn olrhain cynnydd eu disgyblion yn effeithiol o oed cynnar ar hyd eu gyrfa ysgol, ac yn gosod targedau gwella ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion yn olrhain medrau llythrennedd disgyblion yn ddigon manwl.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, er bod ffocws cadarn a blaenoriaeth uchel ar ddatblygu medrau iaith a llythrennedd eu disgyblion, nid yw arweinwyr nac athrawon yn dangos digon o ymrwymiad a dealltwriaeth o athroniaeth ganolog y Cyfnod Sylfaen. Mae gwersi ffurfiol iaith yn cymryd blaenoriaeth dros weithredu methodoleg sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cyflawn y plentyn. Mae'r arweinwyr yn gweld tensiwn rhwng athroniaeth y Cyfnod y Sylfaen a'r angen i gynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau a'r profiadau dysgu'n cael eu cynllunio'n ddigon da i sicrhau safonau a chynnydd digonol yn y medrau iaith a llythrennedd. Yn yr ysgolion hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd yn ddigymell â gweithgareddau darllen ac ysgrifennu y tu allan i'r cornel darllen a'r ardal farcio. Mae tuedd i weithgarwch ar draws y meysydd dysgu ddibynnu'n ormodol ar arweiniad ymarferwyr, ac ar gwblhau taflenni gwaith. Oherwydd hyn, nid yw gofynion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hateb yn llawn, ac nid yw disgyblion yn medru cymhwyso eu medrau iaith yn llwyddiannus ar draws ystod o gyd-destunau.

# Atodiadau

## Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn deillio o:

- ymweliadau gan arolygwyr â phump o leoliadau nas cynhelir, a 18 o ysgolion cynradd ar draws Cymru a ddewiswyd ar sail daearyddol, natur ieithyddol a maint yr ysgolion:

  Cylch Meithrin Llanrug, Gwynedd
  Cylch Meithrin y Bala, Gwynedd
  Cylch Meithrin Bro Elfed, Sir Gaerfyrddin
  Cylch Meithrin Coed Duon, Caerffili
  Ysgol Feithrin Pontypwl, Torfaen
  Ysgol Gymraeg Nant Caerau, Caerdydd
  Ysgol Tyle'r Ynn, Castell Nedd Port Talbot
  Ysgol Bro Siôn Cwilt, Ceredigion
  Ysgol Llanilar, Ceredigion
  Ysgol Ciliau Parc, Ceredigion
  Ysgol Abersoch, Gwynedd
  Ysgol Babanod Morfa Nefyn, Gwynedd
  Ysgol Llanllyfni, Gwynedd
  Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, Merthyr Tudful
  Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw, Pen-y-bont
  Ysgol Dafydd Llwyd, Powys
  Ysgol Gwenffrwd, Sir y Fflint
  Ysgol Gynradd Tremeirchion, Sir Ddinbych
  Ysgol Gynradd Bro Brynach, Sir Gaerfyrddin
  Ysgol y Dderwen, Sir Gaerfyrddin
  Ysgol Gynradd Saron, Sir Gaerfyrddin
  Ysgol Gymraeg Cwmbrân, Torfaen
  Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam

- gwybodaeth yn deillio o arolygiadau tua 80 o ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg a thua 70 o leoliadau nas cynhelir, a gafodd eu harolygu yn y flwyddyn 2011-2012.
- trafodaethau gyda swyddogion cenedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin;
- trafodaeth gydag athrawes gefnogi Cyfnod Sylfaen (lleoliadau nas cynhelir) un awdurdod lleol; a
- dadansoddiadau data asesiadau athro diwedd y Cyfnod Sylfaen 2012.

Yn ystod yr ymweliadau, bu arolygwyr yn:

- arsylwi gwersi;
- cyfweld penaethiaid, arweinyddion lleoliadau, arweinyddion Cyfnod Sylfaen ac ymarferwyr;
- craffu ar ddogfennaeth lleoliadau ac ysgolion;
- sgwrsio gyda disgyblion; a
- chraffu ar enghreifftiau o waith disgyblion.

| Atodiad 2: Geirfa/cyfeiriadau |
|---|

**Dogfennaeth:**

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2008

Strategaeth Addysg Cyfrwng-Cymraeg, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2008

Adroddiad Blynyddol 2011-2012, Estyn, Ionawr 2013

**Termau:**

| | |
|---|---|
| **Meysydd dysgu** | Mae saith maes dysgu yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Maent yn ategu ei gilydd er mwyn darparu athroniaeth drawsgwricwlaidd i ddatblygu'r plentyn cyflawn.<br><br>Y saith maes dysgu:<br><br>• datblygiad creadigol;<br>• datblygiad corfforol;<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;<br>• datblygiad y Gymraeg; (*mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg yn unig)*<br>• datblygiad mathemategol;<br>• iaith, llythrennedd a chyfathrebu; (*Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg, Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg)* a<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. |
| **Ardaloedd dysgu** | Mae pwyslais ar ddatblygu gallu disgyblion fel dysgwyr annibynnol yn y Cyfnod Sylfaen, gan roi cyfleoedd iddynt ddewis gweithgareddau a thrywyddau dysgu drostynt eu hunain. I hwyluso hyn, mae amryw o ardaloedd dysgu yn cael eu darparu. Er enghraifft, ardal farcio ac ysgrifennu, ardal ddarllen, ardal berfformio, ardal chwarae rôl.<br><br>Mae pwyslais ar addysgu mewn ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen, a ddylai fod yn estyniad naturiol o'r amgylchedd dysgu tu fewn yr ysgol. Dylai disgyblion allu symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd mewnol ac allanol. |
| **Ymarferwyr** | Term generig i ddisgrifio oedolion sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon, arweinwyr cylchoedd meithrin a cynorthwywyr dysgu. |

| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** |
|---|

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Bev Jenkins AEM | Arolygydd tîm |
| Ann Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Dyfrig Ellis AY | Arolygydd Tîm |
| O Glyn Roberts AY | Arolygydd Tîm |